

---

# Arweinydd: Y Cyngorydd Huw Thomas

# UCHELGAIS PRIFDDINAS



Dim ond drwy weithio gyda phobl, cymunedau a sefydliadau sydd am weld y ddinas yn llwyddo y gallwn fynd i'r afael ag anghydraddoldeb, rheoli twf ac ateb yr her ariannol.

Fel sefydliad rhaid i ni roi'r gorau i ddelio â phroblemau ar lefel unigol a dechrau integreiddio timau rheng flaen sy'n cael eu grymuso i fynd i'r afael â'r problemau beunyddiol rydyn ni'n gwybod bod angen eu datrys. Bydd Aelodau Cabinet yn cymryd cyd-gyfrifoldeb ar draws eu portffolios, gan wthio ein polisiau yn eu blaen i gyflawni newid. Yn yr un modd, ni all cyfarwyddiaethau unigol weithredu fel seilos mwyach: rhaid i'r Cyngor weithredu fel un tîm di-dor i gyflawni gwelliant ledled y ddinas. Nid yw dweud "Nid dyna fy swydd i" yn ddigon da. Bydd staff y Cyngor yn cael eu cefnogi'n rhagweithiol i ddelio ag unrhyw broblemau, o roi gwybod am geudyllau i ddelio â stryd anniben.

Yn ehangach, rhaid i'r Cyngor weithio ar draws y gwasanaethau cyhoeddus i gynnig datrysiadau parhaus i broblemau cymhleth. Rhaid darparu gwasanaethau heb ffiniau i chwalu'r rhwystrau sy'n atal pobl rhag cael swydd, cyflawni'r canlyniadau gorau i blant yn ein gofal a helpu pobl i fyw'n annibynnol. Bydd hyn yn gofyn am ffocws pendant ar integreiddio gwasanaethau i gyflawni'r canlyniadau rydyn ni am eu gweld.

Bydd y Weinyddiaeth hon yn sicrhau bod twf ein dinas nid yn unig yn parhau ond yn cael ei harneisio er budd y ddinas-ranbarth gyfan a'n bod yn datblygu perthynas gyd-fuddiol rhwng y ddinas a'r rhanbarth. Mae'r Fargen Ddinesig yn ddechrau da, ond mae angen gwneud mwy. Bellach mae angen iddi weithredu fel sbardun ar gyfer dinas-ranbartholi aeddfed lle mae trafodaethau gonest yn cael eu cynnal a phenderfyniadau strategol – ynghylch tai, trafnidiaeth a buddsoddi – yn cael eu gwneud er budd hirdymor y Brifddinas-ranbarth gyfan ac, yn y pendraw, Cymru.

Nid dim ond ased rhanbarthol yw prifddinas lwyddiannus, ond un cenedlaethol. Byddwn yn ddinas sy'n edrych tuag allan, gan weithio gyda'n holl bartneriaid i sicrhau bod llwyddiant Caerdydd yn cael ei rannu â phobl leol, partneriaid rhanbarthol a'r wlad gyfan. Bydd Caerdydd yn brifddinas sy'n gweithio i Gymru.

## Byddwn yn:

- **Adeiladu ar y rôl y gall Caerdydd ei chwarae yn cyflawni ar gyfer economïau Cymru a'r DU** drwy weithio gyda dinasoedd eraill Cymru a Dinasoedd Craidd y DU.
- Gweithio ar lefel Cymru gyda sefydliadau fel Cymdeithas Llywodraeth Leol Cymru i **helpu i lywio sut mae gwasanaethau cyhoeddus yn cael eu hariannu a'u darparu.**
- **Symud y tu hwnt i'r Fargen Ddinesig** gan greu fframwaith ar gyfer dinas-ranbartholi lle gall penderfyniadau strategol gael eu gwneud ynghylch tai, trafnidiaeth a buddsoddi er budd hirdymor y Brifddinas-ranbarth gyfan ac, yn y pendraw, Cymru.
- Gweithio gyda phartneriaid y Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus i **gydlynu gwasanaethau cyhoeddus, trechu tlodi a lleihau anghydraddoldeb.** Bydd hyn yn cynnwys gwaith wedi'i gomisiynu i archwilio'r cysylltiadau rhwng lleoliadau, tai, tlodi a rhwystrau i gyflogaeth.
- **Gweithio ar lefel Gymunedol** i chwalu rhwystrau rhwng adrannau'r Cyngor a rhwng y Cyngor a gwasanaethau cyhoeddus eraill ac i greu cysylltiadau cryfach gyda phreswylwyr a chymunedau.
- Cydweithredu ag awdurdodau lleol eraill i **harneisio'r buddsoddiad cyfunol mewn gwasanaethau cyhoeddus** a'r pŵer prynu cysylltiedig i ddylanwadu ar yr agenda datblygu economaidd ar draws dinas-ranbarth Caerdydd.
- Gweithio gydag eraill i **sicrhau bod Llywodraeth y DU yn darparu unrhyw gyllid Ewropeaidd y bydd Caerdydd yn ei gollu drwy adael yr Undeb Ewropeaidd**, gan eirioli'n gryf dros fynediad digyfngiad i'r Farchnad Sengl a rhoi sicrwydd i fyfyrwyr a gweithwyr rhyngwladol.
- **Cydlynu gwasanaethau'r Cyngor** fel ein bod yn gweithio fel un tîm i gyflawni ar y materion pwysicaf. Bydd y meysydd ffocws allweddol yn cynnwys:
  - Sicrhau cydweithio agos rhwng y meysydd iechyd a gwasanaethau cymdeithasol sy'n cynnwys gwella'r tai sydd ar gael i bobl hyn a hyrwyddo byw'n annibynnol.
  - Cefnogi plant sy'n derbyn gofal.
  - Cadw cymunedau, parciau a strydoedd yn lân.
- Treialu **Hyb Arloesi newydd y Ddinas** i ddatblygu datrysiadau newydd i heriau dinas fawr, gan weithio gyda phartneriaid gwasanaethau cyhoeddus.
- Mabwysiadu dulliau **Dinas Ddeallus** o reoli seilweithiau'r ddinas, gan ddechrau drwy ddefnyddio technoleg newydd a meddalwedd ragfynegol i helpu i **reoli rhwydweithiau'n ddeallusol** ar draws y ddinas.
- **Cefnogi'r iaith Gymraeg** i greu dinas wirioneddol ddwyieithog a bodloni'r galw am addysg Gymraeg yn y brifddinas.